DYLAN THOMAS
BARDD ROC A RÔL - CA2

# Amserlen y Trên o Lundain i Abertawe

Mae Dylan Thomas eisiau teithio o Lundain i Abertawe ar y trên. Allwch chi ei helpu i ddeall yr amserlen?

| Gorsaf Drenau | A | B | C | Ch |
|---|---|---|---|---|
| Llundain | 07:30 | 09:30 | 11:30 | 13:30 |
| Reading | 08:25 | 10:25 | ---- | 14:25 |
| Bryste | --- | 11:35 | 13:15 | 15:35 |
| Casnewydd | 11:55 | 12:15 | ---- | 16:15 |
| Caerdydd | 12:20 | 12:40 | 14:00 | 16:40 |
| Abertawe | 13:40 | 14:00 | 15:15 | 18:00 |

1. Faint o'r gloch mae trên 07:30 o Lundain yn cyrraedd Abertawe?

2. Pa un yw'r trên cyflymaf o Lundain i Abertawe?

3. Pa un yw'r trên arafaf o Lundain i Abertawe?

4. Mewn sawl gorsaf mae trên 13:30 yn stopio cyn iddo gyrraedd Abertawe?

5. Petai Dylan eisiau cyrraedd Abertawe cyn 3pm, pa drên a ddylai ei ddal?

6. Mae Dylan yn cyrraedd gorsaf drenau Llundain am 09:40. Faint o amser fydd rhaid iddo aros tan y trên nesaf i Abertawe?

7. Pa mor hir mae trên Dylan yn ei gymryd i fynd o Gaerdydd i Abertawe?

8. Mae trenau D, Dd, E, F yn rhedeg ddwy awr yn union yn hwyrach na threnau A, B, C, Ch.  Llenwch yr amserlen ar eu cyfer nhw isod gan ddefnyddio nodiant y cloc 24 awr.

| **Gorsaf Drenau** | **D** | **Dd** | **E** | **F** |
|---|---|---|---|---|
| Llundain | | | | |
| Reading | | | | |
| Bryste | | | | |
| Casnewydd | | | | |
| Caerdydd | | | | |
| Abertawe | | | | |